## GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A483 A'R A458 (Y TRALLWNG, POWYS) (DILEU CYFYNGIADAU) 202-

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn dileu anghysondeb sy'n bodoli ar hyn o bryd gyda'r terfyn cyflymder presennol yn y lleoliad hwn.

Yn dilyn y newid yn y terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol o 30 mya i 20 mya ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru ym mis Medi 2023, cynhaliwyd adolygiad o rannau o briffordd sy'n ddarostyngedig i'r terfyn cyflymder cenedlaethol uwch lle y mae goleuadau stryd yn bresennol.

Y terfyn cyflymder cenedlaethol presennol (ar gyfer ceir a beiciau modur) ar ffyrdd unffrwd gwledig yw 60 mya. Mae'r ffaith bod goleuadau stryd yno, a ddarperir gan lampau sydd wedi eu gosod heb fod yn fwy na 200 llath (183 o fetrau) oddi wrth ei gilydd yn golygu bod y rhannau hyn o'r ffordd wedi eu dosbarthu'n ffyrdd cyfyngedig.

Yn dilyn adolygiad o'r rhannau hyn o ffyrdd yn erbyn y ffactorau a nodir yn adran 6 o ganllawiau Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad, er gwaethaf presenoldeb goleuadau stryd, y dylai'r ffyrdd yma fod â therfyn cyflymder sy'n cyd-fynd â'r terfyn cyflymder cenedlaethol ar gyfer ffyrdd unffrwd gwledig (60 mya), gan nad yw'r ffactorau ar gyfer terfyn cyflymder is o 20 mya wedi eu bodloni.

Felly, mae'r Gorchymyn Dileu Cyfyngiadau Terfyn Cyflymder hwn yn sicrhau bod y terfyn cyflymder ar y rhannau hyn o gefnffyrdd yr A483 a'r A458 yn cael ei gadw at 60 mya.

## THE A483 & A458 TRUNK ROADS (WELSHPOOL, POWYS) (DERESTRICTION) ORDER 202-

## STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is necessary to remove an anomaly that currently exists with the current speed limit at this location.

Following the change in national default speed limit from 30 mph to 20 mph on restricted roads across Wales in September 2023, a review of sections of highway subject to the upper national speed limit where street lighting is present was undertaken.

The current national speed limit (for cars and motorcycles) on rural single carriageway roads is 60 mph. The presence of street lighting furnished by lamps placed not more than 200 yards (183 metres) apart means these sections of road are classed as restricted roads.

Following a review of these sections of road against the factors set out in section 6 of the guidance on Setting Local Speed Limits in Wales 2009, the Welsh Government has concluded that, despite the presence of street lighting, the roads here should have a speed limit aligned to the national speed limit for rural single carriageway roads (60 mph), as the factors for a lower speed limit of 20 mph have not been met.

This Derestriction Speed Limit Order therefore ensures that the speed limit on these sections of the A483 and A458 trunk roads is retained at 60 mph.